# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 11/5/2026

**Presennol:** Clwyd Davies (yn y gadair), Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams

Lis Puw (Clerc)

1. Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2025.
2. Derbyniwyd Adroddiad y Cadeirydd ar waith y flwyddyn 2025-26 a nodwyd fod y Cyngor wedi cyflawni llawer yn ystod y flwyddyn.
3. Etholwyd Gwyn Roberts fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2026-27.
4. Ethol Eleri Jones yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2026-27.
5. Gofynnwyd i'r Clerc gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
6. Enwebwyd Tyly Roberts a W D Williams yn gynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
7. Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol y Cyngor, a thrafodwyd yr Asesiad o Risgiau Ariannol y Cyngor.
8. Cadarnhawyd y Côd Ymddygiad.
9. Adolygwyd rhestr o eiddo'r Cyngor.
10. Ystyriwyd y Ffurflen Flynyddol ac atebwyd y cwestiynau Datganiadau Blynyddol.
11. Lwfansau Cynghorwyr: dywedodd yr aelodau nad oeddent yn dymuno derbyn Lwfans am eu gwaith.
12. Penodwyd dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2026-27.

**Dyddiadau Cyfarfodydd:**

11/5/26 Cyfarfod Blynyddol 2026
29/6/26 *yn dibynnu ar argaeledd yr Adroddiad Mewnol*
14/9/26
9/11/26
11/1/27
8/3/27
10/5/27 Cyfarfod Blynyddol 2027

**Arweiniad a roddwyd ar Lwfansau Cynghorwyr:**

i. Telir Lwfans Unigol o £156 i bob Cynghorydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol
ii. Tâl presenoldeb: ni fydd y Cyngor yn talu am bresenoldeb yn y cyfarfodydd misol (penderfyniad blaenorol).
iii. Telir costau o fewn y rheolau os ar fusnes y Cyngor
iv. Telir costau teithio ar fusnes y Cyngor @ 45c y filltir
v. Telir costau gwarchod o fewn y rheolau i fynychu cyfarfod /ar fusnes y Cyngor

Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
01678540654 07896964120
lis_puw@hotmail.co.uk

...................................................... Cadeirydd ...................................................Clerc

Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
01678540654 07896964120
lis_puw@hotmail.co.uk